Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd Ymchwil**

# Y Gyfres Gynllunio: 2 - Polisi Cynllunio Lleol
Briff Ymchwil

Chwefror 2019



www.cynulliad.cymru/ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/ymchwil**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6317**
E-bost: **Elfyn.Henderson@Cynulliad.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd Ymchwil**

# Y Gyfres Gynllunio: 2 - Polisi Cynllunio Lleol
## Briff Ymchwil

Chwefror 2019

**Awduron:**
Elfyn Henderson

**Trosolwg o'r papur:**
Canllaw cryno ar bolisi cynllunio lleol yng Nghymru yw'r papur briffio hwn. Mae'n disgrifio sut y caiff Cynlluniau Datblygu Lleol eu paratoi ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y broses o fabwysiadu'r cynlluniau hyn ledled y wlad. Mae hefyd yn disgrifio'r categori newydd a gyflwynwyd o dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, sef "Cynlluniau Datblygu Strategol" ac yn cynnwys rhestr ddefnyddiol o ffynonellau i gael rhagor o wybodaeth.

# Cynnwys

**Pwy sy'n gyfrifol am bolisïau cynllunio lleol? ....... 1**

**Beth yw Cynllun Datblygu Lleol? ....... 2**

**Sut y caiff Cynllun Datblygu Lleol ei baratoi? ....... 3**

Datblygu sail dystiolaeth ....... 3

Cytundeb cyflawni ....... 3

Dogfennau cyn adneuo Cynllun Datblygu Lleol ....... 3

Cynllun adneuo ....... 4

Sylwadau ac archwiliad annibynnol ....... 4

Adroddiad yr Arolygydd ....... 5

Mabwysiadu a monitro ....... 5

Pwerau Gweinidogion Cymru ....... 5

**Beth yw Cynllun Datblygu Strategol? ....... 6**

**Ffynonellau allweddol ....... 7**

Llywodraeth Cymru ....... 7

Cymorth Cynllunio Cymru ....... 7

Y Porth Cynllunio ....... 7

Gwasanaeth Ymchwil y Senedd ....... 7

**Atodiad – Crynodeb o hynt y Cynlluniau Datblygu Lleol ....... 8**



# Pwy sy'n gyfrifol am bolisïau cynllunio lleol?

Caiff polisïau cynllunio lleol yng Nghymru eu paratoi gan awdurdodau cynllunio lleol. Y 22 awdurdod unedol a'r tri awdurdod parc cenedlaethol yw'r awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru, ac maent wedi'u rhestru yn yr atodiad. Mae gan awdurdod cynllunio lleol yr hawl gyfreithiol i gyflawni swyddogaethau cynllunio lleol, gan gynnwys datblygu polisïau defnyddio tir a rhoi caniatâd cynllunio. Caiff polisïau cynllunio lleol eu cynnwys mewn Cynlluniau Datblygu Lleol.

# Beth yw Cynllun Datblygu Lleol?

O dan *Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004*, mae gofyniad statudol ar bob awdurdod cynllunio lleol i baratoi Cynllun Datblygu Lleol. Mae Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys cynigion a pholisïau ar gyfer defnyddio tir lleol yn y dyfodol a dyma yw'r brif ddogfen ar gyfer cynllunio gwaith datblygu yng Nghymru. Mae'n disodli'r system flaenorol o baratoi cynlluniau datblygu unedol. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn para am gyfnod o rhwng deg a phymtheg mlynedd a dylai adlewyrchu polisi cynllunio cenedlaethol yng Nghymru.

Mae *Deddf Cynllunio (Cymru) 2015* (Deddf 2015) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol ystyried y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (gweler ein papur briffio ar bolisi cynllunio cenedlaethol) wrth baratoi eu Cynlluniau Datblygu Lleol yn y dyfodol. Mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn disodli Cynllun Gofodol Cymru ac, ar hyd o bryd, disgwylir iddo gael ei gymeradwyo yn nhymor yr hydref 2019. O dan Ddeddf 2015, mae hefyd yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol ystyried y Cynllun Datblygu Strategol, os oes un ar waith ar gyfer yr ardal (gweler adran 4 isod).

Pan fyddant wedi'u mabwysiadu (eu cwblhau), mae Cynlluniau Datblygu Lleol yn disodli'r holl gynlluniau datblygu blaenorol a chânt eu defnyddio i benderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio. O'u cymharu â chynlluniau datblygu unedol, bwriedir i Gynlluniau Datblygu Lleol fod yn fyrrach, bwriedir i'r gymuned gyfrannu mwy tuag atynt a bwriedir iddynt gael eu cwblhau ynghynt.

Mae holl awdurdodau cynllunio lleol Cymru naill ai wedi mabwysiadu eu Cynlluniau Datblygu Lleol neu maent wrthi'n gwneud hynny. Fel ar 1 Medi 2018, roedd gan 22 o'r 25 awdurdod cynllunio lleol CDLl mabwysiedig, ac roedd Gwynedd ac Ynys Môn wedi mabwysiadu CDLl ar y cyd. Mae nifer o awdurdodau cynllunio hefyd wedi cynnal adolygiad o'u CDLl mabwysiedig ac maent wrthi'n paratoi CDLl newydd. Mae hynt y cynlluniau ym mhob awdurdodau cynllunio lleol i'w weld yn yr Atodiad.





# Sut y caiff Cynllun Datblygu Lleol ei baratoi?

Mae nifer o gamau yn y broses o baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol.

## Datblygu sail dystiolaeth

Mae *Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004* yn ei gwneud yn ofynnol i Gynllun Datblygu Lleol fod yn 'gadarn', a rhaid profi hynny drwy gynnal archwiliad annibynnol. Er mwyn sicrhau 'cadernid', mae'n ofynnol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gasglu a dangos tystiolaeth yn ymwneud â materion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd perthnasol. Mae'r broses hon yn dechrau drwy nodi'r prif faterion a'r amcanion y mae angen i Gynllun Datblygu Lleol fynd i'r afael â hwy. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith sydd ynghlwm wrth baratoi'r cynllun yn cael ei wneud ar y dechrau gan fod angen casglu tystiolaeth ac ymgynghori â'r gymuned cyn paratoi'r cynllun drafft.

## Cytundeb cyflawni

Mae angen i'r awdurdod cynllunio lleol ddrafftio 'cytundeb cyflawni', sy'n cynnwys amserlen ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol. Bydd y cytundeb hefyd yn dangos sut y bydd yn cynnwys cymunedau yn y broses gan amlinellu sut y gall grwpiau, unigolion neu ddatblygwyr gyfrannu os oes ganddynt ddiddordeb yn y cynllun. Yna mae'n ofynnol i'r awdurdod cynllunio lleol sicrhau bod y cytundeb cyflawni ar gael i'r cyhoedd ei archwilio.

## Dogfennau cyn adneuo Cynllun Datblygu Lleol

Bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn gwahodd datblygwyr, tirfeddianwyr a'r cyhoedd i gyflwyno ceisiadau ar gyfer safleoedd y gellid eu cynnwys i'w datblygu o'r newydd neu eu hailddatblygu yn y Cynllun Datblygu Lleol. Gelwir y safleoedd hyn yn 'safleoedd ymgeisiol' a chânt eu hasesu o safbwynt y posibilrwydd o'u cynnwys.

Yna caiff y dogfennau cyn-adneuo eu paratoi.  Bydd y rhain yn nodi'r strategaeth a ffefrir, yr opsiynau ar gyfer ardaloedd a safleoedd i'w datblygu, gweledigaeth ar gyfer ardaloedd, a gwerthusiad cynaliadwyedd cychwynnol.  Yna cynhelir ymgynghoriad am gyfnod o chwe wythnos.  Bydd modd i unigolion a phawb sydd â diddordeb edrych ar y dogfennau ac anfon sylwadau ysgrifenedig at yr awdurdod cynllunio lleol.  Gall y sylwadau hyn gynnwys cynigion i ystyried ardaloedd neu safleoedd eraill i'w datblygu.  Mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol ystyried pob sylw a chynnig, cyn paratoi adroddiad ymgynghori.  Mae'r adroddiad hwn yn nodi pwy sydd wedi cyflwyno sylwadau am ddogfennau cyn-adneuo, y prif faterion a godwyd a beth sydd wedi dylanwadu ar ddatblygiad y cynllun.

## Cynllun adneuo

Yna, bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn paratoi'r cynllun adneuo, sef drafft llawn o'r cynllun datblygu lleol.  Bydd y cynllun hwn yn cyflwyno'r strategaeth a ffefrir ar gyfer yr ardal. Bydd adroddiad ymgynghori a gwerthusiad cynaliadwyedd diwygiedig yn cael eu paratoi hefyd.  Pan fydd y cynllun adneuo yn barod, bydd cyfnod ymgynghori arall o chwe wythnos yn cael ei gynnal i ganiatáu i bobl roi sylwadau newydd.

Mae modd i'r sylwadau hynny gynnwys cynigion ar gyfer safleoedd datblygu newydd neu safleoedd datblygu diwygiedig.  Rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol gyhoeddi'r holl sylwadau sy'n dod i law.  Cyfrifoldeb y rhai sy'n hyrwyddo safleoedd newydd neu safleoedd diwygiedig yw dangos bod yr archwiliadau priodol wedi'u cwblhau er mwyn sicrhau bod y safleoedd hynny'n gydnaws â'r Cynllun Datblygu Lleol sy'n cael ei ddatblygu.

## Sylwadau ac archwiliad annibynnol

Bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn cyhoeddi adroddiad ymgynghori terfynol, sy'n crynhoi'r materion pwysicaf a godwyd.  Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio (ar ran Llywodraeth Cymru) wedyn yn archwilio'r adroddiad, y sylwadau ar y cynllun adneuo, y cynllun adneuo a'r adroddiad gwerthuso cynaliadwyedd terfynol.

Nod yr archwiliad yw sicrhau bod y cynllun yn 'gadarn', a bod safbwyntiau'r holl bobl sydd wedi cynnig sylwadau yn cael eu hystyried.  Mae profion 'cadernid' yn cael eu rhannu'n dri chategori: gweithdrefn, cysondeb a chydlyniad/effeithiolrwydd. Cynhelir rhan o'r broses archwilio yn gyhoeddus, ac mae gan yr holl wrthwynebwyr hawl i ymddangos a lleisio barn.





## Adroddiad yr Arolygydd

Bydd yr arolygydd yn cyhoeddi adroddiad yn nodi unrhyw newidiadau y dylid eu rhoi ar waith, gan esbonio pam mae angen y newidiadau hyn.  Bydd yn rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol dderbyn barn yr arolygydd.

## Mabwysiadu a monitro

Cyn pen wyth wythnos ar ôl cael adroddiad yr Arolygydd, mae'n ofynnol i'r awdurdod cynllunio lleol fabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol terfynol. O'r dyddiad y caiff ei fabwysiadu, bydd yr Uchel Lys yn rhoi chwe wythnos i wrthwynebwyr herio'r cynllun, ond dim ond ar sail camweinyddu, yn hytrach na chynnwys, y gallant wneud hynny. Ar ôl mabwysiadu'r cynllun, mae angen i'r awdurdod cynllunio lleol anfon adroddiad monitro blynyddol at Lywodraeth Cymru.  Yna, dylid cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r Cynllun Datblygu Lleol o leiaf bob pedair blynedd i sicrhau ei fod yn parhau i gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf.

O ganlyniad i adolygiadau o'r fath, mae'n bosibl y caiff y Cynllun Datblygu Lleol ei addasu neu ei ddisodli. Gellir disodli CDLl yn llawn, a bydd yn rhaid dilyn y weithdrefn baratoi lawn mewn perthynas â'r CDLl newydd hwn.  Fel arall, gellir newid CDLl drwy gyfrwng *Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015* sy'n darparu ar gyfer gweithdrefn fer newydd ar gyfer diwygio CDLl. Gellir defnyddio'r weithdrefn hon os nad yw'r materion dan sylw yn ddigon arwyddocaol i gyfiawnhau defnyddio'r weithdrefn lawn.

## Pwerau Gweinidogion Cymru

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau eang mewn perthynas â Chynlluniau Datblygu Lleol, gan gynnwys;

- rhoi cyfarwyddyd i awdurdod addasu ei gynllun mewn modd penodol cyn ei fabwysiadu;
- galw cynllun i mewn er mwyn i Lywodraeth Cymru benderfynu yn ei gylch;
- rhoi cyfarwyddyd i awdurdod beidio â mabwysiadu'r cynllun os ystyrir bod argymhellion yr arolygydd yn gwrthdaro â'r polisi cenedlaethol a rhoi cyfarwyddyd iddo addasu neu ddisodli cynllun;
- rhoi cyfarwyddyd i ddau awdurdod neu ragor gydweithio i baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd.

# Beth yw Cynllun Datblygu Strategol?

Nid oes unrhyw drefn statudol ar gyfer cynllunio rhanbarthol yng Nghymru ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae *Deddf Cynllunio (Cymru) 2015* yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru ddynodi 'ardaloedd cynllunio strategol' sy'n fwy nag awdurdodau cynllunio lleol unigol ac i 'baneli cynllunio strategol' gael eu sefydlu ar gyfer yr ardaloedd hyn. Bydd y paneli hyn yn cynnwys aelodau etholedig o'r awdurdodau cynllunio lleol sy'n rhan o'r ardal. Os caiff panel ei sefydlu ar gyfer ardal, bydd wedyn yn paratoi Cynllun Datblygu Strategol a fydd yn rhan o'r 'cynllun datblygu' ffurfiol ar gyfer yr ardal honno. Bydd Cynllun Datblygu Strategol yn ymdrin â materion trawsffiniol fel tai a thrafnidiaeth. Bydd angen i Gynllun Datblygu Strategol ystyried y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol hefyd (gweler ein papur briffio ar bolisi cynllunio cenedlaethol).

Bydd yn rhaid i awdurdodau cynllunio lleol mewn ardaloedd cynllunio strategol ystyried y Cynllun Datblygu Strategol wrth baratoi eu Cynlluniau Datblygu Lleol. Dim ond fersiwn 'ysgafn' o'r Cynllun Datblygu Lleol y bydd yn rhaid iddynt ei pharatoi ar gyfer y rhan honno o'u hardal y mae'r Cynllun Datblygu Strategol eisoes yn ymdrin â hi.

Fel ar fis Ionawr 2019, nid oes Cynlluniau Datblygu Strategol ar waith yng Nghymru, ond cyhoeddodd Lesley Griffiths, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ddatganiad ym mis Rhagfyr 2017 yn dweud ei bod wedi ysgrifennu at bob awdurdod cynllunio lleol yn eu gwahodd i gyflwyno cynigion ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol mewn perpthynas â phob un o'r tri rhanbarth yng Ngogledd Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru.





# Ffynonellau allweddol

## Llywodraeth Cymru

Mae'r **adran gynllunio** ar wefan Llywodraeth Cymru yn cynnwys y wybodaeth a ganlyn:

- **Hafan polisïau ac arweiniad cynllunio;**
- **Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10) Rhagfyr 2018**
- **Nodiadau Cyngor Technegol (TAN) a Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau (MTAN); a**
- **Mynegai o Ganllawiau Polisi Cynllunio i Gymru.**

## Cymorth Cynllunio Cymru

Sefydliad elusennol yw **Cymorth Cynllunio Cymru** ac mae'n helpu unigolion a chymunedau cymwys i gymryd rhan yn fwy effeithiol yn y system gynllunio. Mae'n cynnig gwasanaethau cynghori, gan gynnwys gwasanaeth llinell gymorth.

## Y Porth Cynllunio

Mae Llywodraeth y DU yn darparu gwybodaeth am reoliadau cynllunio ac adeiladu ar wefan y **Porth Cynllunio**. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y system gynllunio yng Nghymru, er bod rhywfaint o'r cynnwys yn berthnasol i Loegr yn unig.

## Gwasanaeth Ymchwil y Senedd

Mae papurau briffio eraill ym maes cynllunio i'w gweld ar **wefan Gwasanaeth Ymchwil y Senedd**, ac ar ein blog: **Pigion/cynllunio.**

# Atodiad – Crynodeb o hynt y Cynlluniau Datblygu Lleol

Gwybodaeth oddi ar wefannau awdurdodau cynllunio lleol, fel ar fis Ionawr 2019.

| Awdurdod cynllunio | Hynt y Cynllun Datblygu Lleol |
|---|---|
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent** | Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Tachwedd 2012. Cyhoeddwyd adolygiad ym mis Medi 2017 ac mae CDLl newydd yn cael ei baratoi. |
| **Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog** | Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Rhagfyr 2013. Cyhoeddwyd adolygiad ym mis Ebrill 2018 ac mae CDLl newydd yn cael ei baratoi. |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr** | Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Medi 2013. Cyhoeddwyd adolygiad ym mis Mehefin 2018 ac mae CDLl newydd yn cael ei baratoi. |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili** | Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Tachwedd 2010. Dechreuwyd paratoi CDLl newydd ond cafodd ei dynnu'n ôl yn ffurfiol ym mis Hydref 2016. |
| **Cyngor Sir Gâr** | Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Rhagfyr 2014. Cyhoeddwyd adolygiad ym mis Chwefror 2018 ac mae CDLl newydd yn cael ei baratoi. |
| **Cyngor Sir Ceredigion** | Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Ebrill 2013 Cyhoeddwyd adolygiad ym mis Tachwedd 2017 ac mae CDLl newydd yn cael ei baratoi |
| **Dinas a Sir Abertawe** | Mae'r Cynllun Datblygu Lleol wedi'i adneuo ac mae archwiliad annibynnol yn cael ei gynnal. |
| **Cyngor Dinas Caerdydd** | Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Ionawr 2016 |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** | Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Hydref 2013. Cyhoeddwyd adolygiad ym mis Ebrill 2018 ac mae CDLl newydd yn cael ei baratoi |
| **Cyngor Sir Ddinbych** | Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Mehefin 2013. Cyhoeddwyd adolygiad ym mis Rhagfyr 2017 ac mae CDLl newydd yn cael ei baratoi |
| **Cyngor Sir y Fflint** | Mae'r CDLl yn cael ei baratoi. Roedd ymgynghoriad ynghylch y CDLl wedi'i adneuo i fod i ddechrau ym mis Tachwedd 2018. |
| **Cyngor Gwynedd** | CDLl ar y cyd ag Ynys Môn. Cafodd ei fabwysiadu ym mis Gorffennaf 2017. |
| **Cyngor Sir Ynys Môn** | CDLl ar y cyd â Gwynedd. Cafodd ei fabwysiadu ym mis Gorffennaf 2017. |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful** | Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Mai 2011. Cyhoeddwyd adolygiad ym mis Ebrill 2016 ac mae CDLl newydd yn cael ei baratoi. |
| **Cyngor Sir Fynwy** | Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Mawrth 2014. Cyhoeddwyd adolygiad ym mis Mawrth 2018 ac mae CDLl newydd yn cael ei baratoi. |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot** | Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Ionawr 2016 |
| **Cyngor Dinas Casnewydd** | Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Ionawr 2015 |
| **Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro** | Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Medi 2010. Cyhoeddwyd adolygiad ym mis Mehefin 2016 ac mae CDLl newydd yn cael ei baratoi |
| **Cyngor Sir Penfro** | Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Chwefror 2013. Cyhoeddwyd adolygiad ym mis Chwefror 2018 ac mae CDLl newydd yn cael ei baratoi. |



**Briff Ymcwhil:** Polisi Cynllunio LLeol

| | |
|---|---|
| **Cyngor Sir Powys** | Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Ebrill 2018 |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf** | Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Mawrth 2011 |
| **Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri** | Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Gorffennaf 2011. Cyhoeddwyd adolygiad ym mis Gorffennaf 2016. Mae'rweithdrefn fer yn cael ei defnyddio i'w ddiwygio |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen** | Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Rhagfyr 2013. Cyhoeddwyd adolygiad ym mis Ebrill 2018 ac mae CDLl newydd yn cael ei baratoi |
| **Cyngor Bro Morgannwg** | Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Mehefin 2017 |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam** | Mae'r CDLl yn cael ei baratoi. Y bwriad yw mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol yn y gwanwyn 2019 |